# YR ATODLEN

## Tanwyddau Awdurdodedig

**77.** Therma Briquettes, a weithgynhyrchir gan Maxibrite Limited yn Ystad Ddiwydiannol Mwyndy, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

(a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 84% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 12% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr starts (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thrin â gwres o tua 250°C;

(c) sy'n frics glo hirgrwn/ar siâp deigryn gyda llinell drwy'r canol;

(d) sy'n pwyso 26 gram ar gyfartaledd; ac

(e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.